**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman
Heddlu Gogledd Cymru

25 Gorffennaf 2023

Annwyl Brif Gwnstabl,

Diolch am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd.

Yn dilyn y sesiwn, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth ychwanegol i ni sy'n ymwneud â'r canlynol:

- prosiect Mynd i'r Afael â Throseddau ar y Stryd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol Caerdydd, gan gynnwys manylion am yr effaith y mae'n ei chael;
- rhaglen waith Gwybod y Llinell, yn enwedig sut y mae'r Coleg Plismona'n bwrw ymlaen â hyn ac a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn wrth ddatblygu'r rhaglen genedlaethol newydd ynghylch hyn;
- rhaglen cyswllt rhwng ysgolion a'r heddlu, ac a oes gwerthusiadau wedi'u cynnal gan ystyried ei heffaith a'i heffeithiolrwydd;
- mentrau economi gyda'r nos, yn enwedig enghreifftiau o arfer gorau, a'u gweithrediad ar draws Cymru;
- ffigurau o'r arolygon cyhoeddus a gynhaliwyd ar draws Cymru sy'n ymwneud â hyder y cyhoedd yn yr heddlu.

Gan fod ein cyfnod casglu tystiolaeth yn dod i ben, byddem yn ddiolchgar cael eich ymateb erbyn 25 Awst 2023 os yw'n bosibl.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.